Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Polisi Allan o Raglen (OOP)

Gorffennaf 2024

1. Cyflwyniad

1.1. Mae AaGIC yn cefnogi ceisiadau i gymryd amser Allan o'r Rhaglen ar gyfer hyfforddeion sy'n dymuno gwneud hynny; cael hyfforddiant clinigol (OOPT), profiad clinigol (OOPE), ymgymryd â chyfnod o ymchwil (OOPR) neu seibiant gyrfa (OOPC).

1.2. Rhaid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r fersiwn diweddaraf o'r Canllaw Aur.

2. Pwrpas a Chwmpas

2.1 Pwrpas y polisi yw darparu arweiniad ar y broses OOP i bob hyfforddai yng Nghymru ar Raglen Hyfforddi Gymraeg (gan gynnwys WCAT) sy'n amlinellu'r egwyddorion OOP allweddol, y broses ymgeisio a'r llinellau amser a chyfrifoldebau rhanddeiliaid dan hyfforddiant.

2.2 Ar gyfer hyfforddeion sy'n dymuno ymgymryd â chyfleoedd i ddatblygu portffolio gyrfa ehangach ar yr un pryd â'u hyfforddiant clinigol, dylid gwneud cais i newid eu statws cyfwerth ag amser cyflawn (%WTE) drwy'r polisi LTFT. Yr eithriad i hyn yw lle bydd y cyfle yn cyfrif tuag at amser hyfforddi a dylid cymhwyso hyn trwy'r polisi OOP hwn.

2.3 Nid yw'r polisi hwn ar gyfer hyfforddeion LAT gan na allant ofyn am amser allan o'r rhaglen yn unol â'r Canllaw Aur.

2.4 Nid yw'r polisi hwn ar gyfer hyfforddeion sy'n ymgymryd â hyfforddiant is-arbenigedd fel rhan o'u rhaglen hyfforddi yng Nghymru (hy PHEM, PEM, Stroke). Yn hytrach, bydd hyfforddeion yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig ffurfiol o'u penodiad y gallant ei rannu gyda'r Coleg priodol. Os ydych yn bwriadu cwblhau eich is-arbenigedd allan o Gymru, yna rhaid mabwysiadu'r Polisi OOP.

3. Egwyddorion

3.1 Gellir cytuno ar geisiadau OOP dim ond os oes ganddynt gymeradwyaeth ffurfiol gan y Deon Ôl-raddedig neu ddirprwy enwebedig.

3.2 Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio'r Ffurflen gais AaGIC a'i anfon at:

Gofal eilaidd : heiw.secondarycare@wales.nhs.uk
Meddygon Teulu: heiw.gptraining@wales.nhs.uk

3.3 Os yw'r OOPT/OOPR i gyfrif tuag at amser hyfforddi, rhaid i'r Hyfforddai ofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Coleg Brenhinol/Cyfadran briodol.

3.4 Os nad yw'r OOPT/OOPR eisoes mewn safle hyfforddi a gymeradwywyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol, yna bydd AaGIC yn ceisio cymeradwyaeth bosibl gan y CMC ar ran yr hyfforddai.

3.5 Ni chytunir ar geisiadau fel arfer nes bod hyfforddai wedi bod ar raglen hyfforddi am o leiaf blwyddyn.

3.6 Yn achos hyfforddeion craidd, mae'n debygol mai mewn sefyllfaoedd eithriadol yn unig y caniateir OOP, o ystyried hyd byrrach a natur yr hyfforddiant.

3.7 Gellir cymeradwyo hyfforddeion ar gyfer mwy nag un OOP fesul rhaglen hyfforddi, ond mae'n annhebygol y byddai OOPs yn cael eu cymeradwyo i redeg yn olynol. Mae gan y Deon Ôl-raddedig ddisgresiwn i ystyried amgylchiadau eithriadol a gall gymeradwyo lle mae rhesymau addysgol cadarn dros wneud hynny.

3.8 Bydd meddygon dan hyfforddiant yn cadw eu Rhif Hyfforddi Cenedlaethol (NTN) trwy gydol eu OOP. Mae'n ofynnol i feddygon dan hyfforddiant ildio eu NTN ar gyrraedd dyfarniad eu CCT, os yn dymuno ymgymryd â Seibiant o'r Rhaglen ar ôl CCT. Yn sgil hyn, byddant yn aberthu eu cyfnod gras.

3.9 Bydd AaGIC yn goruchwylio ac yn rheoli OOPs i sicrhau nad yw'r cyfnod amser yn peryglu sgiliau clinigol.

3.10 Mae'n ofynnol o hyd i feddygon dan hyfforddiant ar OOP gymryd rhan yn y broses ARCP ac ailddilysu . Rhaid i hyfforddeion gynnal eu trwydded i ymarfer tra'n ymgymryd ag OOP yn ogystal â'u cysylltiad ag AaGIC fel eu Corff Dynodedig ar gyfer ailddilysu.

4. Proses ymgeisio ac amserlenni

4.1 Dylid dilyn y llinell amser isod i sicrhau cymeradwyaeth amserol i'ch cais. Gall y Deon ÔI-raddedig arfer disgresiwn mewn rhai amgylchiadau eithriadol :

Cyn dyddiad cychwyn OOP	**Allweddol**
>6 Mis	Trafod cynlluniau gyda Goruchwyliwr Addysgol a Chyfarwyddwr Rhaglen.
>6 Mis	Gwirio gofynion y Coleg os yw'n berthnasol.
6 mis o leiaf	Cyflwyno cais wedi'i gwblhau'n llawn i AaGIC i'w gymeradwyo.
3 Mis	Cadarnhad o OOP

4.2 Cyn gwneud cais, dylai'r hyfforddai siarad â'u goruchwyliwr addysgol a Chyfarwyddwr Rhaglen i benderfynu pa mor addas yw'r OOP arfaethedig ac i sicrhau bod y swydd yn diwallu anghenion addysgol.

4.3 Mae angen i feddygon dan hyfforddiant fod yn ymwybodol o ofynion eu Colegau eu hunain o ran y broses ymgeisio a chymeradwyo OOP. Rhaid hefyd iddynt sicrhau eu bod yn darparu gwybodaeth i gefnogi eu cais yn ôl yr angen.

4.4 Dylai hyfforddeion fod yn wybyddus o'r dyddiad y maent yn dymuno cychwyn yr OOP mewn perthynas â'u rhwymedigaethau cytundebol cyfredol a dyddiad cylchdroi'r rhaglen ehangach, gyda chymaint o aliniad â phosibl.

4.5 Rhaid cwblhau pob ffurflen gais yn llawn a wedi'i derbyn o leiaf **6 mis** cyn dyddiad cychwyn arfaethedig yr OOP. Cynghorir hyfforddeion i wirio a oes unrhyw derfynau amser lleol sy'n benodol i'w Hysgol/Arbenigedd.

4.6 Bydd AaGIC ond yn ystyried ceisiadau sydd wedi'u cwblhau'n llawn gyda thystiolaeth ategol ynghlwm. Os oes angen unrhyw fanylion pellach bydd AaGIC yn cysylltu â'r hyfforddai yn uniongyrchol i geisio datrys yr ymholiad o fewn yr amserlenni a amlinellir uchod (4.1).

4.7 Bydd y broses gymeradwyo yn:

- Ystyried yr effaith ehangach ar y rhaglen hyfforddi.
- Sicrhau bod cyfnodau rhybudd cytundebol yn cael eu bodloni a bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu rhag unrhyw effaith bosibl ar ddiogelwch cleifion.
- Ystyried blaenoriaethu ceisiadau lle mae "gordanysgrifio" gan roi blaenoriaeth i amgylchiadau personol eithriadol. Os yw'n berthnasol, gellir gofyn i hyfforddeion cymwys am hyblygrwydd o ran dyddiadau OOP i hwyluso ceisiadau.
- Bydd yn dibynnu ar y trefniadau arbenigol a deoniaeth.

4.8 Bydd cadarnhad ysgrifenedig yn cael ei anfon at hyfforddeion a rhanddeiliaid allweddol perthnasol eraill 3 mis cyn i'r OOP ddechrau gan gymryd bod yr holl derfynau amser a gofynion ymgeisio wedi'u bodloni.

5. Estyniad i geisiadau presennol am OOP

5.1 Rhaid i hyfforddeion sy'n dymuno gwneud cais am estyniad i'w OOP y cytunwyd arno yn flaenorol gyflwyno'r ffurflen gais briodol o leiaf **6 mis** cyn eu dyddiad gorffen gwreiddiol.

5.2 Mae terfynau amser y gellir ymestyn OOP iddynt a nodir yn y Canllaw Aur.

6. Dychwelyd i'r Rhaglen Hyfforddi

6.1 Ni all y Deon Ôl-raddedig warantu dyddiad na chyrchfan lleoliad yr hyfforddai ar ei ddychweliad. Felly, mae'n bwysig bod y Deon Ôl-raddedig a'r TPD yn cael ei hysbysu am ddymuniad hyfforddai i ddychwelyd i hyfforddiant clinigol ymhell ymlaen llaw. Bydd Deoniaid Ôl-raddedig yn ymdrechu i ddod o hyd i leoliad cyn gynted â phosibl ond dylai hyfforddeion nodi eu bwriad a'u dyddiad dychwelyd delfrydol cyn gynted ag y bo modd. Gall hyn fod cyn iddynt ymadael i ymgymryd â'u OOP hyd yn oed.

6.2 Dylai pob meddyg dan hyfforddiant sy'n dychwelyd o OOP gael rhaglen dychwelyd i ymarfer wedi'i chynllunio ar eu cyfer a allai olygu dychwelyd yn raddol i ymarfer clinigol.

7. Gweithredu'n uwch fel Ymgynghorydd (AUC)

7.1 Mae hyfforddeion y mae disgwyl iddynt ennill eu CCT ymhen blwyddyn yn gymwys i ymroi i 'Weithredu Uwch' fel ymgynghorwyr, hyd at uchafswm o dri mis (pro rata ar gyfer Llai na Llawn-amser). Bydd hyfforddeion hefyd yn cadw eu Rhif Hyfforddiant Cenedlaethol (NTN) yn ystod y cyfnod o weithredu uwch.

7.2 Rhaid defnyddio'r term 'gweithredu uwch' ac nid 'locwm' pan yn ymgymryd â'r swydd. Mae'n bosibl i'r amser a dreulir yn ymroi i 'weithredu uwch' gael ei gydnabod er budd rhaglen hyfforddi sy'n arwain at ddyfarniad CCT.

7.3 Rhaid i hyfforddeion gael cymeradwyaeth ffurfiol y Deon neu'r Dirprwy Ddeon Ôl-raddedig a Chyfarwyddwr y Rhaglen Hyfforddiant i warantu 'gweithredu uwch'.Rhaid anfon geisiadau i AaGIC o leiaf 8 wythnos cyn y dyddiad cychwyn arfaethedig.

7.4 NID yw hyfforddeion yn gymwys i "Weithredu yn uwch" ar ôl y dyddiad CCT. Yn yr achosion hyn, byddai'n ofynnol i hyfforddeion ymddiswyddo eu Rhif Hyfforddi Cenedlaethol (NTN).

7.5 Byddwn ond yn derbyn ceisiadau ar gyfer gweithredu uwch yng Nghymru (ni all Hyfforddeion ymroi i weithredu uwch y tu allan i Gymru).

8. Statws cyflogaeth a Gwasanaeth Parhaus

8.1 Cynghorir hyfforddeion i geisio eglurhad gan eu cyflogwr ynghylch effaith bosibl y cyfnod OOP ar eu:

- Cyflogaeth barhaus
- Dilyniant cynyddrannol
- Hawl i absenoldeb mamolaeth
- Cyfraniad y cyflogwr at y gronfa bensiwn
- Statws Fisa a'r effaith arno – mae'n bwysig bod meddygon dan hyfforddiant o dramor yn ymwybodol o'r effaith y gallai ymgymryd â OOP, a gadael y rhaglen hyfforddi yn ei sgil, ei chael ar eu fisa a'u hawl i ddychwelyd i weithio yn y DU
- Unrhyw fater cyflogaeth arall

8.2 Nid oes gan hyfforddeion hawl i gyllid adleoli neu absenoldeb astudio gan AaGIC yn ystod y cyfnod OOP.

8.3 Bydd angen i unrhyw feddyg dan hyfforddiant gysylltu â'u sefydliad cyflogi perthnasol, os yn cymryd absenoldeb rhiant tra'n ymgymryd â OOP, i gadarnhau trefniadau cyflog ac absenoldeb sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau. Os yw'n ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod OOP dylid cyflwyno cais am estyniad i AaGIC cyn gynted ag y bo modd.

Atodiad 1

	OOPC	**OOPE**	**OOPR**	**OOPT**
Hanfod	I gymryd seibiant gyrfa sydd wedi'i gynllunio.	I ennill sgiliau a phrofiad proffesiynol a fyddai'n gwella ymarfer yn y dyfodol.	I ymgymryd â chyfnod o ymchwil	Ymgymryd â hyfforddiant clinigol nad yw'n rhan o'r rhaglen hyfforddi.
Hyd	Dim mwy na blwyddyn	Dim mwy na blwyddyn	Dim mwy na 3 blynedd	Dim mwy na blwyddyn
Amser yn cyfrif tuag at hyfforddiant	Na	Na	Os gofynnir amdano. Bydd y Coleg Brenhinol yn nodi faint o amser fydd yn cyfrif tuag at CCT.	Ie. Bydd y Coleg Brenhinol yn nodi faint o amser fydd yn cyfrif tuag at CCT.
Gofynion a chanlyniadau ARCP	Canlyniad 8	Adroddiad Goruchwyliwr Priodol. Canlyniad 8	Adroddiad Goruchwyliwr Academaidd Priodol . Canlyniad 8 neu ganlyniad safonol os yw amser yn cael ei gyfrif tuag at hyfforddiant.	Adroddiad Goruchwyliwr Addysgol a thystiolaeth portffolio ofynnol safonol. canlyniad 1,2,3,4,5 neu 6 yn dibynnu ar amgylchiadau
Ailddilysu	Cyflwyniad blynyddol o Ffurflen R.	Cyflwyniad blynyddol o Ffurflen R wedi'i chwblhau	Cyflwyniad blynyddol o Ffurflen R wedi'i chwblhau	Cyflwyniad blynyddol o Ffurflen R wedi'i chwblhau